


papur



priordy



**YR ARGLWYDD YW FY MUGAIL,
NI BYDD EISIAU ARNAF**

Salm 23 Adnod 1

Dewiswyd gan Lliffon Evans. Gweler ei reswm dros ei ddewis y tu mewn

**Rhifyn 305
PAPUR TACHWEDD 2017**

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

BOBBY

AETH y pedwar ohonom i Gaeredin am dridiau yn ystod hanner tymor. Fues i erioed yn yr Alban o'r blaen ond clywais ddigon o ganmol i'r wlad, ei phobl a'i diwylliant. Dyma godi'n blygeiniol iawn fore Llun diwethaf er mwyn hedfan o Faes Awyr Caerdydd am 6 o'r gloch a chyrraedd Gaeredin erbyn 7.15! Roedd hynny ynddo'i hunan yn ddigon o ryfeddod - teithio 380 o filltiroedd mewn awr!

Prifddinas yr Alban er 1492 yw Caeredin. Mae hi ar arfordir dwyreiniol y wlad ac ar lan deheuol y Firth o Forth [mewn Sgoteg]. Fel y gwyddoch, yma mae Senedd yr Alban a ailsefydlwyd ym 1999.

Mae enw'r ddinas yn dod o'r Frythoneg *Din Eidy*n, sef *Caer Eidy*n. Safai un o amddiffynfeydd y Gododdin ar y lle, efallai'n perthyn i'r brenin Clydno Eiddin yng nghanol y chweched ganrif. Ar ôl ei goresgyn gan y deyrnas Seisnig Bernicia newidiwyd yr enw i *Edin-burh*, efallai gyda dylanwad enw Edwin, brenin Northumbria. Ond ni lwyddodd yr Eingl-Sacsoniaid i ymsefydlu dim pellach i'r gogledd na Chaeredin ac erbyn y 10g roedd y Saeson wedi colli gafael ar yr ardal hon i

frenhinoedd yr Alban. [Diolch *Wikipedia* am y ffeithiau hanesyddol hyn!].



Mae Caeredin yn ddinas hardd a diddorol a'r Albanwyr yn hynod o gyfeillgar a chroesawgar. Yn ychwanegol at yr hanes cyfoethog sy'n nodweddu rhannau o'r ddinas, a'r traddodiadau cyfoethog sy'n rhoi i Gaeredin gymeriad a naws unigryw iawn, cefais fy swyno gan hanes ci bach o'r enw Bobby sy'n rhan bwysig o hanes y ddinas.

Roedd Bobby. daeargi (o'r Ynys Hir yn ôl un traddodiad). yn driw iawn i'w

berchennog, y Cwnstabl John Gray, ac yn gwmni i'r plismon wrth iddo dreulio oriau'n crwydro'r ddinas yn y nos. Yn dilyn marwolaeth John Gray ym 1858, bu Bobby'n eistedd ar fedd ei feistr ym Mynwent Eglwys Greyfriars am weddill ei ddyddiau. Bu ymdrechion gofawr y fynwent i gael y ci i adael yn ofer nes iddo yn y diwedd, adeiladu cysgod ar ei gyfer ger y bedd.

Byddai Bobby'n gadael y fynwent am un o'r gloch bob dydd ac yn derbyn pryd o fwyd mewn caffi lleol, lle byddai'i festr yn bwyta bob amser cinio.

Enillodd serch pobl Caeredin, a buont yn gofalu am Bobby tan ei farwolaeth ym 1872. Fe'i claddwyd nid nepell o fedd John Gray. Codwyd cofeb i Bobby yn 1873 er mwyn atgoffa pawb am gi enwocaf Caeredin a fu'n ffyddlon i'w feistr, hyd y diwedd. Mae'r arysgrif ar y gofologofn yn darllen:

"Greyfriars Bobby – died 14th January 1872 – aged 16 years – Let his loyalty and devotion be a lesson to us all".

IE, bydded i'w ffyddlondeb a'i deyrngarwch i'w feistr e fod yn esiampl i ni oll wrth geisio dilyn ein Meistr ni.



Gweddï

'Arglwydd Iesu, dysg i'm gerdded drwy y byd yn ôl dy droed.'

Cymorth ni o Dduw i fod yn deyrngar a ffyddlon i ti ar bob adeg.

Yn enw Iesu Grist

Amen




BYW Y BEIBL

BLWYDDYN Y BEIBL BYW DARLLENIADAU




BYW Y BEIBL

Mis	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 23: 1-12
Wythnos 2	Mathew 25: 1-13
Wythnos 3	Mathew 25: 14-30
Wythnos 4	Mathew 25:31-46



APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR



A wyddech chi fod gwir angen cymorth ar gannoedd o deuluoedd Sir Gaerfyrddin y Nadolig hwn? Menter leol a gafodd ei sefydlu yn 2011 ac sy'n darparu anrhegion Nadolig i deuluoedd mewn angen yw Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Apêl Teganau Nadolig wedi sicrhau bod plant lleol, na fyddai fel arall ond yn derbyn nifer fach iawn o anrhegion neu ddim anrhegion o gwbl, yn cael anrheg adeg y Nadolig.

Yn sgil ymateb gwych Y Priorddy y llynedd a'r flwyddyn gynt rydym wedi penderfynu cefnogi'r Apêl eleni eto.

Pa fath o anrhegion rydyn ni'n chwilio amdanynt?

Rydyn ni'n chwilio am anrhegion ar gyfer pob oedran; o fabanod 18 mis oed i fyny at bobl ifanc yn eu harddegau,

Byddem yn ddiolchgar pe baech chi ddim yn lapio'r anrhegion gan y byddant yn cael eu dosbarthu gan y tîm o wirfoddolwyr sy'n gweithio ochr yn ochr â'r teuluoedd. Mae croeso i chi gyfrannu papur lapio, sisyrnau a selotêp ar gyfer y gwirfoddolwyr.

Byddwn yn casglu yn y Capel ar y Suliau 12, 19 a 26 Tachwedd a 3 a 10 Rhagfyr. Bydd blychau yn y Capel ar gyfer hyn.

A wnewch chi sicrhau bod y teganau yn rhai newydd os gwelwch yn dda a heb eu lapio. Awgrym o bris - £5 yr anrheg.

Mae un peth ychwanegol eleni, sef bod modd rhoi cyfraniadau ariannol i'r Apel er mwyn trefnu l brynu 'Bwydydd Nadolig' i'r plant a'r teuluoedd a fydd yn derbyn cymorth drwy Gynllun Gofal y Cyngor Sir. Mae croeso i chi roi'ch cyfraniadau mewn amlen yn y blychau teganau, os ydych yn dymuno.

Diolch

Beti-Wyn

**DYMA'R UNDEB
Rhifyn 48 Hydref 2017
Copïau yn y cyntedd**



TUDALEN BLAEN

Y RHESWM AM DDEWIS LLIFON EVANS

Dw i'n hoff o'r adnod. Mae'n ein hatgoffa o'r ffaith ein bod yn derbyn cymaint gan Dduw. Mae felly'n ddyletswydd arnom i roi'n ôl.

Dw i'n cofio dweud yr adnod yng Nghapel Saron, Penygroes yng Ngwynedd pan oeddwn i'n blentyn.

Y Gweinidog ar y pryd oedd Y Parchedig Huw Jones a symudodd wedyn i'r Bala. Roedd pawb yn ei adnabod yn annwyl iawn fel '*Huw Bach*'. Bu farw ym mis Medi 2017

yn 97 oed. Roedd yn awdur a diddanwr amryddawn ac yn aelod o griw gwreiddiol y Noson Lawen. Bu hefyd yn arwain o Lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol dros gyfnod o 25 mlynedd. Cyn mynd i'r weinidogaeth roedd yn was fferm ac roedd wedi gorfod cysgu mewn llofft stabl y pryd hwnnw. Roedd yn genedlaetholwr amlwg. Yn berson annwyl iawn ac yn llawn hiwmor, roedd hefyd yn gadarn ei ffydd a'i grêd..



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

RHIAN MAIR EVANS

Rhodfa'r Gogledd

MARI JENKINS

Porth y Plas, Tre Iolan

a


CARYS GREEN

Lôn y Felin

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

DIOLCHGARWCH Y PRIORDY




CWRDD DIOLCHGARWCH PLANT A PHOBL IFAINC Y PRIORDY

BRAINT oedd cael dod at ein gilydd unwaith eto i ddatlu'r cynhaeaf ar y Sul cyntaf ym mis Hydref yng nghwmni'r aelodau, ffrindiau, a phlant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Ar ôl gweddi agoriadol a chroeso gan Beti-Wyn, dechreuodd yr oedfa gyda'r gynulleidfa yn ymuno i ganu'r emyn '*O Mor Dda yw ein Duw*' i gyfeiliant band y Priordy.



Ethan gyflwynodd yr ail emyn, '*Hon yw fy Fflam Fach i*' ac yn dilyn hyn cafwyd cyflwyniad gan Osian a Tomos am ŵyl y cynhaeaf, ac yn ein gwahodd i gymryd y cyfle i ddiolch i Dduw am ein bwyd ac am bopeth sy'n tyfu o'r tir. Ymunodd y gynulleidfa i gyd-adrodd yr wythfed Salm cyn i Osian a Tomos orffen y darlleniad yn gofyn i ni ddiolch i Dduw am bopeth y mae Ef wedi'i greu.

Cyflwyniad ar y sgrin oedd y weddi, i gyfeiliant cerddoriaeth, ac roedd hyn yn gyfle i'r gynulleidfa fyfyrion ar arwyddocâd y diolchgarwch.



Yn dilyn yr emyn '*Cofia bob amser*', a gyflwynwyd gan Tomos ac Osian, daeth cyfle i'r merched, Meg, Anest a Megan, i gyflwyno eu heitem ddifyr ar forgrug. Fe ddysgom lawer am y creaduriaid bach hynod hyn, ac yn syndod i lawer, mae'r Beibl yn sôn am forgrug yn Llyfr y Diarhebion. Mae'n dweud wrthym na ddylem fod yn ddiog, ond yn weithgar fel y morgrug. Meg orffennodd y cyflwyniad drwy ein hatgoffa fod hyd yn oed y morgrug yn rhodd gan Dduw. Ni ellid cyhuddo'r gynulleidfa o fod yn ddiog tra oedden nhw'n canu'r emyn nesaf, sef '*Mae'r bysedd sydd yn clicio...*'. Roedd yn rhaid i'r oedolion weithio'n galed i ddilyn brwdfrydedd y plant!

Fe glywsom ragor am forgrug yn anerchiad Beti-Wyn. Roedd hi'n

amlwg fod gennym ni lawer i'w ddysgu oddi wrth yr anifail hwn. Mae'r morgrug yn gweithio fel tîm, yn rhannu, ac mae'r rhai bach yn dysgu oddi wrth y rhai hŷn. Pwysleisiodd Beti-Wyn ei bod hi'n bwysig i ni gadw hyn mewn cof yn ein bywyd bob dydd.

I GLOI'R gwasanaeth, daeth y gynulleidfa ynghyd i ganu'r emyn '*Pwy wnaeth y sêr?*'. Diolch i Beti-Wyn am wasanaeth diolchgarwch cofiadwy a phwrpasol unwaith eto.

OEDFA GYMUN YR HWYR A SWPER Y CYNHAEAF

Braint oedd croesawu aelodau'r Ofalaeth a'r Tabernacl a chyfeillion eraill atom i'r oedfa arbennig hon.. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig John Roberts, Aberystwyth, sy'n adnabyddus i ni fel cyflwynydd *Bwrw Golwg* ar *Radio Cymru* ar fore Sul. Cyflwynodd ei neges mewn tair rhan ar ffurf myfyrdod byr a gweddi gydag agwedd ar y cynhaeaf, yn codi o adnodau yn y Beibl, yn ganolog i bob un ohonynt. Daeth y rhan gyntaf o Lyfr Amos – Gweledigaeth o Ffrwythau Haf. Cawsom ein hatgoffa nid yn unig i werthfawrogi cynnyrch y cynhaeaf ond hefyd i wneud defnydd priodol ohono a bod yn hael drwy ofalu am y llai ffodus, fel y tlawd a'r anghenus. Fel arall, mae perygl i ffrwythau'r cynhaeaf droi o fod yn arwydd o ddigonedd i fod yn arwydd o bydredd. Daeth yr ail ran o Efengyl Luc – Tynnu Tywysennau ar y Saboth. Tynnwyd ein sylw at bwysigrwydd peidio â gweld y cynhaeaf fel cyfle i edliw na chodi muriau, fel y gwna'r Phariseaid a'r Ysgrifenyddion. Yn hytrach yr her i ni yw edrych ar y byd drwy lesu a dymchwel muriau, boed y rheiny yn yr eglwys neu mewn mannau eraill. Daeth y drydedd ran o Efengyl Marc – Dameg yr Heuwr. Mae Duw yn hau cariad, fel yr hadau, yn afradlon, hynny yw, mae'n cynnig ei gariad i bawb heb fesur y tir, Mae gofyn i ninnau hefyd fod yr un mor hael yn ein cariad at bobl o'n cwmpas a thrwy'r byd i gyd. Roedd y neges hon yn ein tywys yn effeithiol iawn at Fwrdd y Cymun i dderbyn o fendithion Duw ac i ymroi o'r newydd lldo drwy'i fab lesu Grist..Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan y Parchedig Peter Cutts. Roedd y Cymun yng ngofal ein Gweinidog. Cafodd ei chynorthwyo gyda'r elfennau gan Philip Jones, Wyn Tegryn



Evans, Gareth Gravell a Gwynfor Davies. Roedd Eira Phillips wrth yr organ, Wedi'r oedfa, mwynhawyd swper gyda'n gilydd yn y Festri. Diolchodd Lyn Jones Bancyfelin, i'r pregethwr gwadd a phawb a gymerodd ran ac i'r gwragedd am baratoi'r lluniaeth ar ein cyfer.

CASGLIAD RHYDD EIN GŴYL DDIOLCHGARWCH

Llwyddwyd drwy'n casgliad rhydd yn ein Gŵyl Ddiolchgarwch i godi digon o arian i noddi dau dŷ bach drwy gynllun gefeillio tŷ bach Tearfund mewn gwledydd sydd heb ei datblygu lawer – y naill yn Burkina Faso a'r llall yn Uganda.

Mae tsysgrifau yn ein tai bach ni yn y Priordy i nodi hyn. Diolch i Wyn Tegryn Evans am eu gosod.



RHODDION EIN GŴYL DDIOLCHGARWCH

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd roddion gyfer Banc Bwyd Caerfyrddin yn ein Gŵyl Ddiolchgarwch. Diolch hefyd i Henry a Bronwen Wilkins am eu cludo i'r Banc Bwyd yn Nhre Iwan.



ar

AGOR Y GAIR

Bore Mercher – 8 Tachwedd – Yr Atom – 11 tan 12

Cyfarfod olaf y gyfres gyfredol



DRWS AGORED

BORE IAU 16 Tachwedd 2017 – FESTRI'R PRIORDY

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CWRDD CHWARTER

Dydd Iau 23 Tachwedd 2017

10.30 a 1.30

Capel Penygraig



Yn y prynhawn

Anerchiad Joan Thomas y Llywydd Newydd

TAITH GERDDED A BARBECIW'R OFALAETH



LLEDU ADENYDD

EIRWYN GEORGE ddywedodd yn ei hunangofiant *Fel Hyn y Bu* ei fod yn credu'n gryf y dylai'r Eglwys heddiw ledu'i hadenydd, ceisio ymdoddi fwyfwy i'r byd sydd ohoni a bod yn rhan o weithgareddau cymdeithasol o bob math.

Diolch am y cyfleoedd a gawn yn ein Gofalaeth i ledu'n hadenydd mewn amrywiol ffyrdd. Onid yw ymgyrch fisol yr Ofalaeth i hybu elusennau amrywiol, pell ac agos, drwy gydol y flwyddyn hon yn enghraifft glodwiw o hynny?

Peth rhagorol hefyd yw'r cyfleoedd a gawn fel Gofalaeth i gymdeithasu ymhlith ein gilydd. Mae'r achlysuron hyn yn gyfrwng mor wych i ni ddod i adnabod ein gilydd yn well. Maent hefyd yn rhoi gwynt newydd yn ein hwyliau fel Cristnogion ac yn ein paratoi'n dda i estyn ffiniau a lledu'n hadenydd. Cafwyd dau gyfle'n ddiweddar.



Yn gyntaf, Cinio Sul yr Ofalaeth ar Ddydd Sul 15 Hydref, ar ddiwrnod *Shwmae*



Sumae yng Ngwesty Pen-y-baedd yn Heol Awst, Caerfyrddin. Diolch i aelodau Cana am drefnu hyn a bu ymateb da gan eglwysi eraill yr Ofalaeth. Cafwyd pryd o fwyd wrth fodd calon a myfyrdod pwrpasol gan ein Gweinidog i gloi'r achlysur. Diolch hefyd i Meinir a Bill Hunter (sef chwaer a brawd yng nghyfraith Marlene) a'u staff am y croeso.

Yn ail, Taith Gerdded a Barbeciw'r Ofalaeth ar Ddydd Sul 22 Hydref 2017. Braf oedd gweld teuluoedd ar draws yr ystod oedran o bob un

o'n capeli wedi dod. Aeth y daith â ni ar hyd y llwybr sydd yng nghyffiniau Amgueddfa'r Sir ym Mhalas yr Hen Esgob. yn Abergwili. Yn arwain roedd ein Gweinidog sy'n adnabod y llwybr yn dda iawn. Wedi'r cyfan, mae Llew, y pyg, a'r teulu'n crwydro'r llwybr hwn yn aml! Yna wrth i ni



ddychwelyd roedd gwynt hyfryd y byrgys a'r sosejys yng Nghlwb Rygbi'r Twins yn Abergwili'n ein croesawu. Diolch i gyfeillion Bancyfelin, yn arbennig Lyn ac Anne Jones, am y trefniadau ac i Cath Jones am goginio'r byrgys. A bu cyfraniad ein Gweinidog at drefniadau'r raffl a'i gofal am yr epillog ar y diwedd yn gaffaeliad mawr. Mynegwyd ein diolch i bawb yn ddeheuig iawn gan Sulwyn Thomas, Cadeirydd Swyddogion Eglwysîr Ofalaeth.



Aeth elw'r prynhawn at Apêl *Corwynt Cariad 2017* Partneriaeth rhwng Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol yw'r Apêl i helpu Ynysoedd y Philipinas, gwlad annibynnol er 1945. Mae'n wlad lle mae tlodi difridol yn parhau i fodoli, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig ac yn y

slymiau yn y dinasoedd mawr. Mae hefyd yn wlad sydd yn dioddef corwyntoedd enbyd - problem sydd yn gwaethygu oherwydd dylanwad newid hinsawdd.




le, da yw gadael 'y gragen' a lledu adenydd fel y paun ambell waith. Ni fyddwn fyth wrth ein hunain. Yn ôl at Eirwyn George eto i gloi. Fel y dywed wrth ddiweddu un o'i delynegion:

***Ond Duw sy'n lledu 'mhell tu hwnt
I bedwar mur a tho.***

PROFIADAU

Fe enillodd Islwyn Ffowc Elis
y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod
Genedlaethol Cymru Llanrwst ym 1951 am
ei gasgliad o ysgrifau *Cyn Oeri'r Gwaed*.
Enw un o'r ysgrifau yw *Eiliadau
Tragwyddol* lle mae'n sôn am dri phrofiad a




drodd yn
'*eiliadau
tragwyddol*'.



Alla i ddim dweud i mi brofi'r fath
eiliadau'n ddiweddar ond ces dri
phrofiad cofiadwy iawn.

Ces wahoddiad i gynnal arddangosfa
o'm gwaith yn '**King's College'**
Caergrawnt. Roedd hyn yn syndod o
mi ac ar eiliad wam derbyniais y
gwahoddiad – gwahoddiad a achosodd
dipyn o ofid a phryder.

Pa fath o dderbyniad a gaiff fy lluniau o
Gymru? A ddaw rhywrai i'w gweld?
Cynhaliwyd y noson agored ar Nos Iau, 5
Hydref yn y Coleg a gwahoddwyd nifer o
athrawon, darlithwyr a myfyrwyr y Coleg
i'r agoriad. Ces fy synnu faint ddaeth
ynghyd a thipyn o drafod ar y lluniau.



Ond coron y
noson oedd
presenoldeb a
chefnogaeth **Syr
John Meurig
Thomas**. Mae

John yn wyddonydd byd- eang a galw mawr
arno i ddarlithio ledled y byd. Cemeg yw ei
faes ac oherwydd iddo ddarganfod un o
elfennau cemeg fe'i galwyd yn 'Meurigite'. Ond crwt o'r Tymbly John



ac fe briododd â Margaret, croten o Langennech. Bu Margaret a finnau'n ffrindiau pennaf yn Ysgol Gynradd Llangennech, yn teithio ar yr un bws am saith mlynedd i ysgolion gramadeg yn Llanelli ac yn gyd-aelodau ym Methesda, Llangennech. Trwy Margaret y des i i gyfarfod â John a'n llwybrau'n croesi ar hyd y blynyddoedd. Erbyn hyn mae Margaret wedi marw a John wedi ailbriodi a gwraig sydd hefyd yn enwog ym maes Cemeg. Yng nghanol lli o Saesneg coeth y gwahoddedigion, clywed môr o Gymraeg y Tymbl a Llangennech. Bydd y noson yn aros yn hir yn y cof.



Ces yr ail brofiad wrth fynychu gwasanaeth hwyrnos yng nghapel enwog King's – cael eistedd wrth y côr a gwrando ar leisiau peraid, persain, pur yn cyrraedd entrychion nenfwd yr eglwys. Profiad i'r glust! Ar y dde i mi roedd ffenestr liw enfawr yn cofnodi croeshoeliad Crist ac islaw'r ffenestr, lun o enedigaeth Crist gan Rubens – gwledd i'r llygaid!



Malcolm ac Eurwen Jones fu'n gyfrifol am y trydydd profiad cofiadwy. Pan glywodd Malcolm fy mod yn mynd i Gaergrawnt dywedodd: *'Cofia fynd i Goleg Sant Ioan ac i Eglwys Sant Ioan. Ar y mur ar yr ochr chwith wrth fynd at yr allor fe weli gofeb arbennig.'* Roedd Malcolm yn iawn – cofeb i ddau Gymro a fu'n astudio yn y Coleg, sef William Morgan, cyfieithydd y Beibl, ac Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd a fu'n gyfrifol am y *'Salmu Cân'*. Uwchben y ddau enw yn Gymraeg mae'r geiriau 'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog' (o'r Apocryffa) ac islaw *Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw...* (agoriad un o salmau cân Edmwnd Prys, sef Salm 121).

Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog' (o'r Apocryffa) ac islaw Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw... (agoriad un o salmau cân Edmwnd Prys, sef Salm 121).

Tri phrofiad a'r tri'n bleserus ofnadwy. Wedi dweud hyn 'Teg edrych tuag adre' i Gymru – yn gallach, gobeithio!!

Gweler uchod un o ddarluniau Wynne yn yr arddangosfa yn King's College (24 Medi – 20 Hydref 2017), sef Yr Wyddfa o Gastell y Gwynt.) A llongyfarchiadau mawr iddo ar gael ei wahodd i arddangos ei waith yn y Coleg.

**AMSER I GOFIO
I DDIOLCH GYDA'N GILYDD
I DDOD Â IACHÂD I'N HIRAETH**

Dydd Sul 19 Tachwedd 2017 - 2.30

Tŷ Gwydr Mawr, Gardd Fotaneg

Genedlaethol Cymru,

Llanarthne

Mynediad am ddim



Darlleniadau dewisiedig, cyfraniadau cerddorol gan artistiaid lleol, ynghyd â chanu rhai caneuon / carolau poblogaidd. Cyfle i adlewyrchu ac i gynnu cannyll personol, ac i gyflwyno enw eich anwylyn

Bws rhad o Gaerfyrddin. Cysylltwch ag Euryl (erbyn Dydd Iau, 16 Tachwedd 2017) ☎ 01267 227563 (wedi'i gefnogi gan noddwr preifat)

Yn ogystal â dathlu bywyd pobl arbennig sy'n awr yn gorffwys, gwahoddir chi i gefnogi ymhellach waith Pwyllgor Apêl Hosbis Tŷ Cymorth. Wrth gofio person sy'n arbennig i chi, byddwch hefyd yn sicrhau fod pob dydd yn 'arbennig' i gleifion a theuluoedd eraill. Am wybodaeth bellach cysylltwch ag Ysgrifenydd Tŷ Cymorth Emlyn Schiavone ☎ 07779 420626 neu Euryl Howells, Uwch Gaplan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ☎ 01267 227563 neu Euryl Howells2@wales.nhs.uk

CYFEIRIAD NEWYDD!

Carys a Huw, Tomos, Ifan a Cadi

Awel Tywi

Heol Llangynnwr

Caerfyrddin



CYFROL DDIWEDDARAF MENNA ELFYN

Cyhoeddiad diweddaraf Menna Elfyn yw **BONDO**, sef casgliad o gerddi er cof am Aber-fan – un o ddamweiniau diwydiannol gwaethaf Prydain pan laddwyd 144 o bobl gan gynnwys 116 o blant a hynny ar 21 Hydref 1966,

Cyhoeddir y gyfrol gan Lyfrau Bloodaxe. Mae'n argraffiad Cymraeg a Saesneg gyda throsiadau Saesneg gan rai

o'n prif ferirdd Cymraeg.

Mae'r cerddi'n ffrwyth blynyddoedd o waith ac yn adlewyrchu'r cyswllt dwfn a pharhaus sydd rhwng y bardd a chymunedau glofaol yng Nghymru.


Bydd Menna Elfyn yn lansio'r gyfrol gyda darlenniadau yn Llundain, Gwlad Pwyl a phenwythnos aeaf y Gelli a mannau eraill yng Nghymru.

Bydd lansiad a darlenniadau yng Nghaerfyrddin **yn Ffestri'r Priorddy ar Nos Lun, 4 Rhagfyr 2017 am 7 o'r gloch** fel rhan o Raglen Cymdeithas Ddiwylliadol y Priorddy.

Dyma fanylion y gyfrol:

Bondo gan Menna Elfyn (gyda chyfieithiadau gan Elin ap Hywel, Gillian Clarke, Damian Walford Davies, Robert Minhinnick a Menna Elfyn) Llyfrau Bloodaxe, Pris £12

Llongyfarchiadau hefyd i Menna Elfyn ar gael ei bywgraffiad o'r bardd Eluned Phillips, Optimist Absoliwt : Cofiant Eluned Phillips (Gomer 2016) ar restr fer Gwobr Llyfr Ffeithiol Greadigol y Flwyddyn 2017. Bydd y seremoni gwobrwyo'n digwydd ar 13 Tachwedd yng Nghaerdydd. Cyhoeddir trosiad Saesneg o'r gyfrol yn 2018.



DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD

Cynhadledd i Baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2018

Dydd Mercher 29 Tachwedd 2017

Festri Capel Heol Awst, Caerfyrddin

Coffi / Te o 10 o'r gloch ymlaen

Tâl: £2 (yn cynnwys paned)

Croeso cynnes i bawb

*Paratowyd Gwasanaeth 2018 gan Chwiorydd Cristnogol
Suriname ar y thema 'Mae Cread Duw yn dda iawn i gyd'*



ARDDANGOSFA CRED A GWEITHRED

Amgueddfa Caerfyrddin

20 Medi – 5 Tachwedd 2017

Mae'r arddangosfa'n ymwneud â'r themâu recriwtio a gwrthwynebiad cydwybodol i'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan edrych ar y credoau a ysgogodd rai i gwestiynu rhyfel a gweithio dros heddwch yn ystod y ganrif ddiwethaf.



Cynhyrchwyd gan 'Gymru dros Heddwch' / Cymru'n Cofio 14-18

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 22 Tachwedd 2017 am 7 yn y Festri

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda***



Pibau Priordy



RHIF PIBEN	ENW	RHIF PIBEN	ENW
1	Gwion, Gwenan, Elliw	28	Alwen Owen
2	Beti Wyn a Philip James	29	Wyn Evans
3	Philip Jones	30	John a Muriel Gibby
4	Jayne Jones	31	Elin a Sara James
5	Gladwen Meredith	32	Chris Lloyd
6	Bronwen Wilkins	33	Janet Davies
7	Gwyn ac Ann Bowyer	34	Mair Baston
8	Jones, Tŷ Clyd	35	Gwynfor Davies
9	L. Evans	36	Alun a Tina Charles
10	Henry Wilkins	37	Ethan a Iestyn Woods
11	J.D. a N. Hayes	38	Gareth Gravell
12	Elis, Meinir, Steffan a Gareth	39	Rhian a Dennis Jones
13	Sulwyn Thomas	40	Tomos, Cadi ac Ifan Morgans
14	Adrian Evans	41	Malcom Jones
15	Gloria Evans	42	Margaret Lloyd Evans
16	Eirlys Jones	43	Rita Brown
17	Hilary Kynaston	44	Carwyn a Tomos Axford
18	Ffion Fielding/Rhodri Kynaston	45	

19	Huw a Rhyswen Michael	46	Betsan James
20	Di-enw	47	Eirwen Jones
21	Olive Lloyd	48	Gwenan a Siwan Jones
22	Thelma Evans	49	
23	Y Teulu Reynolds	50	Catrin Heledd
24	Glenys Thomas	51	Luned Voyle
25	Osian a Trystan Hayes	52	Mared, Catrin a Gruffudd
26	Llifon Evans	53	
27	Enid Jones	54	Elis ac Erin Roderick
		55	Heather Williams

Cyfanswm apêl Pibau'r Organ mor belled yw £3,345. Mae hyn yn cynnwys cyfraniad teulu'r diweddar John Reynolds o £1,000 er cof am John ac Elizabeth. Mae'r swm yn ychwanegol at y Gymanfa Ganu a ddaeth â £2,121 i'r coffrau. Roedd hefyd £1,100 yn y gronfa er y llynedd. Mae'n golygu i £6,566 cyrraedd y Gronfa ond aeth £4,250 at dalu am atgyweirio'r Organ. Y gweddill sydd yn y Gronfa felly yn £2,316 a fydd yn gaffaeliad i'r dyfodol.

Mae'n diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at Gronfa'r Organ ym mhob rhyw fodd. Diolch i Peter Hughes Griffiths am lywio'r gwaith atgyweirio ac am holl drefniadau Apêl y Gymanfa Ganu, i Tim Hayes am ddyfeisio a llywio Apêl y Pibau a hefyd i Adrian Evans am gadw'r cyfrifon.

CWRDD A THE AMNEST YN Y TABERNACL

Nos Sul, 8 Hydref 2017

Trefnwyd y gwasanaeth mewn cydweithrediad â Chell Caerfyrddin o Amnest, Cell Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod, y Tabernacl a'r Priordy. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Y Parchedigion Peter Cutts a Beti-Wyn.

Soniodd Sophie Oeppen, athrawes yng Nghaerfyrddin ac un sydd wedi dysgu Cymraeg, am Amnest Rhyngwladol – y sefydliad sy'n ymgychu i sicrhau na chaiff hawliau pobl eu cam-drin ac, os cânt eu cam-drin, y gwneir rhywbeth yn ei gylch. Yn anffodus, mae cam-drin hawliau dynol yn rhemp. a rhoddir llawer yn y carchar oherwydd yr hyn maent yn ei feddwl neu'n ei gredu. Mae Cell Amnest Caerfyrddin yn anfon llythyron a chardiau at y bobl anffodus hyn a hefyd at yr awdurdodau perthnasol yn pwysu arnynt i barchu hawliau dynol.



Anfonwyd cardiau post yn enw pob un ohonom i'r Aifft a Llundain y tro hwn drwy Amnest. Yn gyntaf at Wasanaeth Eryl Cyhoeddus yr Aifft mewn ymgais i ddod o hyd i'r gwirionedd am Giulio Regeni. Myfyriwr ymchwil o dras Eidalaidd yng Nghaergrawnt oedd Giulio. Daethpwyd o hyd i'w gorff ar 3 Chwefror 2016 yn yr Aifft wedi'i arteithio'n ddirifol. Yn ail at y Gweinidog Mewnfudo yn Llundain yn galw ar y llywodraeth i ailuno plant sy'n ffoaduriaid â'u teuluoedd gan fod y rheoliadau'n milwrio yn erbyn hyn ar hyn o bryd.



Mwynhawyd Te Amnest, yn cynnwys cacennau hynod o flasus, gyda'n gilydd a chawsom gyfle i gyfrannu at gostau anfon y cardiau.

Diolch am wasanaeth pwrpasol o gyfoes. Diolch yn arbennig i Iris Owen, y Tabernacl, am ei gwaith trefnu.

YMARFERION PARTION CANU'R

MERCHED A'R BECHGYN!

yn dechrau

BORE SUL 12 TACHWEDD 2017

**Gofynnir am eich cefnogaeth,
os gwelwch yn dda**



GWION YN MEISTROLI'R CIWB!



Cafodd Gwion Gîwb Riwbic gan Siôn Corn y Nadolig diwethaf. Daeth ag e i'r Capel ar fore Nadolig. Gofynnodd ein Gweinidog iddo roi gwybod pan fyddai wedi'i ddatrys. Wel, llwyddodd, ac mae'r llun yn brawf o hynny!

Llongyfarchiadau Gwion a diolch am rannu'r newyddion da â ni.

LLONGYFARCHIADAU

Dymunwn longyfarch Haydn Thomas, Bancyfelin ar gyflawni 50 mlynedd yn flaenor yn ei eglwys. Yn gyfaill triw i'n Gofalaeth, anfonwn ein cofion cynnes iawn at Haydn a'i briod a'i deulu.

Cyflwynwyd anrheg iddo i nodi'r achlysur gan ei Weinidog. Mae'n cynnwys englyn iddo gan Eirug Salesbury, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Sul Bancyfelin.



Dr Llinos Williams...

**YMWELIAD YR YSGOL SUL Â
CHARTREF ERW HIR
15 Hydref 2017**



A hithau'n gyfnod Diolchgarwch, roedd yn briodol mai 'diolch' oedd thema'r gwasanaeth pan aeth yr Ysgol Sul i ymweld â Chartref Erw Hir ar 15 Hydref. Ac mae gennym gymaint i fod yn ddiolchgar amdano – yn deulu a ffrindiau, ysgol a chapel, a chael bod yn rhan o gymdeithas a chymuned arbennig Caerfyrddin. Cawsom groeso cynnes a thrigolion Erw Hir yn amlwg wedi mwynhau clywed y plant yn canu a darllen. Diolch i Jona, Gwion, Ethan, Osian a Tomos am eu darlenniadau graenus a chllir. Diolch hefyd i'r holl blant a phobl ifanc am ganu mor wych, ac i Jayne am gyfeilio a helpu i godi'r to! Roedd hi hefyd yn 'Ddiwrnod Shwmae Su'mae' a pha well ffordd i nodi'r diwrnod na chael clonc dros banad a bisgedi ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch i staff a thrigolion Erw Hir am y croeso twymgalon eto eleni.



RHAGHYSBYSIAD – AR GYFER EICH DYDDIADUR GŴYL MAWL MEDI Y TABERNACL, CAERFYRDDIN – DYDD SUL 30 MEDI 2018	
<i>Y Bore am 10</i> Oedfa o Fawl i'r Plant a'r Oedolion dan arweiniad Euros Rhys Evans	<i>Y Prynhawn am 2</i> Oedfa Bregethu gyda'r Parchedig Dyfrig Rees
YMARFERION Y Plant <i>I'w drefnu</i> Oedolion <i>Nosweithiau Sul 16 / 23 Medi – Y Tabernacl – 7 yr hwyr</i>	

CYNNAL GWASANAETH YNG NGHARTREF ERW HIR



IF



Tudalen Ieuenctid@Priordy

PIP ar daith

Mae'n debyg eich bod wedi cael amser da gydag Alun Lenny yn ymweld â'r hen Lys yn y dref. Mae Gwenan wedi ysgrifennu adroddiad hyfryd am y bore sydd i'w weld mewn man arall yn y rhifyn hwn o'r Papur. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r daith.



Erw Hir

Clywais eich bod wedi cynnal oedfa arbennig yng Nghartref Preswyl Erw Hir a'r canu'n ardderchog. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd yr achlysur ac i'r Dr Llinos am drefnu a Jayne am gyfeilio. Roedd pawb wedi gwerthfawrogi'n fawr iawn.



Nadolig!

Fe fyddwn yn cychwyn ar ein paratodau ar gyfer y Nadolig cyn bo hir. Bydd y sgript a'r rhannau'n cael eu dosbarthu fore Sul, 19 Tachwedd

ac ymarfer bob bore Sul wedi hynny. Cofwch mai dyddiad ein Gwasanaeth Nadolig yw prynhawn Sul, 10 Rhagfyr am 3.30 o'r gloch (nodwch y newid mewn amser) gydag ymarfer am 10 y bore hwnnw.

Apêl Teganau Cyngor Sir Gâr

Byddwn yn cefnogi'r Apêl hon eto eleni ac mae na wahoddiad i chi gyfrannu anrheg fechan (heb ei lapio) ar gyfer bachgen neu ferch i'r blwch a fydd ym mhen blaen y Capel rhwng nawr a dechrau Rhagfyr.

Gwasanaeth Nadolig Y Priordy

Dydd Sul, 10 Rhagfyr am 3.30yp

(nodwch yr amser)

yng nghwmni plant, pobl ifanc ac

oedolion Y Priordy

Paned a briwgacs i ddilyn

Croeso i bawb

Os oes gennych gyfeiriad ebost, a wnewch chi ei anfon ataf os gwelwch yn dda (oni bai ei fod gen i yn barod!) Diolch.

Hwyl am y tro, Beti-Wyn

PIP AR DAITH YN LLYS Y CLOS MAWR



Gwenan Jones...

YMWELIAD PIP Â'R HEN LYS YNG NGHAERFYRDDIN

BORE SUL 15 Hydref aeth PIP ar daith i ymweld â'r llys yng nghanol tref Caerfyrddin. Fe wnaeth y Maer, Alun Lenny ein cyfarch a'n tywys o amgylch y llys.

Yn gyntaf, soniodd am hanes y brwydrau a fuodd yng Nghaerfyrddin yn y gorffennol.

Cyfeiriodd at y lluniau oedd yn cael eu harddangos ar waliau'r llys a'r bobl oedd yn gysylltiedig â nhw.

Picton oedd un o'r arweinwyr. Roedd yn arwain byddin i ymladd yn erbyn gwledydd eraill. Ef oedd yr unig Gymro i gael ei gladdu yn Eglwys San Paul yn y cyfnod hwnnw.

Un gŵr bonheddig arall oedd yn gyfarwydd â rhyfeloedd oedd William Nott, a oedd yn ymladd yn Afghanistan. Pan ddaeth byddin o 15,000 o Brydeinwyr i frwydro yn eu herbyn, fe wnaethon nhw ladd pob un ohonynt heblaw am un meddyg a oedd wedi dianc. Bu Nott farw ar ôl y brwydro a chafodd ei gladdu gyda'i rieni yn eglwys San Pedr. Mae cofeb iddo yn India a cherflun yn Sgwâr Nott yng Nghaerfyrddin.

Soniodd Alun Lenny am sawl achos a fuodd yn y llys sef Merched Beca a Ronnie Harries o Sanclêr.



ymgyrch i gael sianel Gymraeg ym 1974. Digwyddiad hanesyddol arall yng Nghaerfyrddin oedd pan enillodd Gwynfor Evans ei sedd. Ef oedd y



Roedd hon yn stori frawychus am ddyn ifanc oedd wedi cael ei gyhuddo o ladd ei fodryb a'i wncwl pan ddiplannodd y pâr yn 1943. Daeth yr heddlu o hyd i gyrff y ddau wedi cael eu claddu mewn cae. Plediodd Ronnie Harries yn ddi-euog ond mynnodd y Barnwr ei fod yn euog o'r drosedd. Fe oedd y person olaf i gael ei grogi yn dilyn achos llys yng Nghaerfyrddin. Soniodd Alun hefyd am

cynfaf i gipio sedd yn San Steffan ar ran Plaid Cymru yn yr is-etholiad ym 1966.

Cawsom daith o amgylch y llys, i lawr i'r celloedd a chyfle i sefyll yn y doc. Gwelson ni hefyd yr ystafell ble mae'r rheithgor a'r Barnwr yn trafod eu dedfrydau. Esboniodd hefyd am ei ddyletswyddau fel y Maer. Mae'r Maer yn cael ei urddo yn y llys ym mis Mai bob blwyddyn. Dysgon ni mai'r person cyntaf i fod yn Faer deirgwaith oedd Rhys ap Thomas. Fe laddodd Rhisiart III ym mrwydr Bosworth. A chredwch chi fyth pwy oedd yr ail berson i fod yn faer deirgwaith? Neb llai na wyneb adnabyddus ac aelod o gapel y Priordy sef y dyn ei hun - Peter Hughes Griffiths.



HOFFWN ddiolch yn fawr i'r Maer, Alun Lenny am ein tywys o amgylch y llys ac am rannu'r hanes a'r straeon gyda ni. Roedd yn ddiddorol iawn a mwynhaodd pawb yn fawr iawn. Ar ôl yr ymweliad, cafodd pawb ddiod yr un yn 'Café Nero'. Diolch yn fawr i Gapel y Priordy. Diolch yn fawr hefyd i Mr Philip James a Mr Elis Jones am ddod gyda ni ar yr ymweliad. Bore bythgofiadwy.



GWENLLIAN LLŶR

O WYLL I WAWR

17.11.17

FESTRI'R PRIORDY, CAERFYRDDIN – 7.30

Oedolion: £6 Plant £4 (yn cynnwys paned)

Talu wrth y drws

CÔR MEIBION CAERFYRDDIN

CYNGERDD BLYNYDDOL 2017

Dydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2017 – 7.30

Capel y Priordy

Artistiaid Gwadd

Osian Wyn Bowen (Tenor)

Côr Merched Hŷn Ysgol Bro Myrddin

Meirion Wynn Jones (Organ)

Tocynnau: £10 (Huw: ☎07528719343 /

Dylan (☎07751500944) neu wrth y drws



Gareth Gravell...

CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL Y PRIORDY

AR NOS LUN 2 Hydref, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas Ddiwylliadol yng nghwmni'r siaradwr gwadd, **John Rees**, Brynaman. Cyn iddo ymddeol ryw ddwy flynedd yn ôl roedd yn Gyfarwyddwr Gwastraff ac Ailgylchu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ac yn



ddiweddarach yn Gyfarwyddwr ar Gwmni CWM, sef cwmni sy'n rheoli gwastraff yn ein sir. Mae CWM yn gwneud yr holl waith ailgylchu erbyn hyn ac eithrio casglu'r sbwriel o'r cartrefi.

Gyda'r Festri'n gyffyrddus lawn, cychwynnodd y cyfarfod gyda chroeso a gweddi gan ein Gweinidog ac i ddilyn darlenniad teimladwy a synhwyrus gan Mr Gwilym Jones o Salm 104 sy'n sôn am brydferthwch Creadigaeth Duw. Daeth yn amlwg pa mor frau yw hi gan feddwl am y camddefnydd bydol a wneir ohoni'r dyddiau hyn.

Cafwyd anerchiad hynod o ddiddorol gan John am ei waith ac yn benodol am y Ganolfan Ailgylchu yn Nantycaws, Caerfyrddin lle bu'n treulio rhan helaeth o'i amser wrth y llyw.

Mae'r Ganolfan yn trafod pob math o ddeunydd gwastraff, fel plastig, deunydd pacio, papur, bwyd a sawl math arall. Y bwriad yw ceisio lleihau'r gwastraff sy'n mynd yn ôl i'r tir, y tirlenwad. Dangoswyd ffilm ddiddorol iawn o'r Ganolfan ar waith gyda gweithwyr yn gwahanu'r sbwriel fel roedd yn symud ar hyd cludfelt enfawr gyda phob darn ohono'n mynd i flwch arbennig.

Mae ailgylchu'n bwysig iawn wrth gwrs. Mae'n atal tunelli o sbwriel rhag cael eu claddu mewn safle tirlenwad a allai greu nwyon tŷ gwydr peryglus. Unwaith mae'r sbwriel wedi'i gasglu o'r drws mae'n mynd i Nantycaws i gael ei wahanu, ei fwndelu ac yna'i gludo i ailbroseswyr i'w droi'n gynnyrch newydd.

Soniodd John am broblemau a all godi wrth ailgylchu. Nid yw pob deunydd plastig er enghraifft, yn ailgylchu'n llwyddiannus ac mae yna restr o'r gwahanol fathau ohono sy'n waeth na'i gilydd. Mae ymgyrch ar droed i newid y deunydd pacio a ddefnyddir gan archfarchnadoedd er mwyn lleihau'r broblem hon. Mae ailgylchu gwydr yn gallu bod yn broblem hefyd oherwydd ei fod yn torri'n ddarnau bach iawn sy'n medru mynd i mewn i flychau deunyddiau eraill.

Soniodd yn ogystal am y broblem mae tuniau aliwminiwm budr yn ei hachosi gan eu bod yn denu llygod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau statudol ar gyfer ailgylchu, gyda tharged o 70% erbyn 2025 a 100% erbyn 2050. Mae Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd yn ailgylchu 60%. Mae hyn yn gam arbennig, oherwydd ar ddechrau'r ganrif hon, Caerfyrddin oedd yr awdurdod gwaethaf o ran ailgylchu gwastraff. Erbyn heddiw mae'n drydydd allan o 22 o awdurdodau yng Nghymru. Gall awdurdodau wynebu cosb ariannol mawr am fethu â chyrraedd eu targedau unigol. Felly mae busnes ailgylchu'n cael ei ystyried yn un difrifol a phwysig dros ben.

Mae yna gyfyngu hefyd ar faint o wastraff bioddirywiol, sef cardfwrdd, papur a gwastraff bwyd, sy'n gallu mynd i safleoedd tirlenwi a gall hyn eto arwain at ddirwyon ariannol trymion. Da oedd clywed bod Sir Gaerfyrddin wedi lleihau'n sylweddol faint y gwastraff mae'n ei anfon i safleoedd tirlenwi. Wrth gasglu sbwriel, mae pob lori wastraff yn cael ei phwyso, a dyna sy'n dynodi faint o daliad gaiff y Ganolfan. Felly pwysau yw popeth yn y gwaith hwn!


Pwysleisiodd John ei bod yn bwysig rhoi'r gwastraff cywir yn y bagiau sbwriel. Gwastraff glân yn y bagiau glas – tuniau, cynwysyddion plastig, papur a deunydd na ddylid ei roi yn y tir- ac yn y bagiau du, pob math o sbwriel arall, ac eithrio gwastraff bwyd.

Mae'r gwaith ailgylchu'n anodd, yn ôl John, gan nad yw rhai o'r peiriannau'n medru ymdopi weithiau. Er enghraifft, mae rhai'n rhoi bag o fewn bag ond dim ond y bag allanol y gall y peiriant ei agor. Felly, mae cael gweithiwr ychwanegol i wneud hyn yn ychwanegu at y costau.

Rhaid cadw golwg manwl, wrth gwrs, ar gostau. Gyda chanolfannau ailgylchu yn Trostre, Llanelli, Wern-ddu, Rhydaman a Hendy-gwyn ar Daf mae'n gallu bod yn fusnes cymhleth ac anodd i sicrhau bod pob canolfan yn rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon. Pwysleisiodd John fod angen addysgu pobl a newid arferion y boblogaeth parthed ailgylchu er mwyn cyrraedd nod 2025.

Cawsom drafodaeth fuddiol iawn ar ôl yr anerchiad gyda nifer yn holi am y peryglon o beidio ag ailgylchu, hyd at beth ddylen ni fod yn ei roi yn ein bagiau sbwriel.

NOSON hynod o ddiddorol a hwylus felly, gyda nifer wedi cael eu synnu am y goblygiadau a'r rhesymau pellgyrhaeddiol sydd o ofalu am ein hamgylchfyd - yr amgylchfyd rydym fel trigolion y ddaear yn denantiaid drosto ac a fydd yn nwylo'r cenhedloedd i ddod.



Eirlys Jones...

OEDFA DDIOLOGARWCH CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Bore Gwener, 20 Hydref 2017

Daeth cynrychiolaeth dda o eglwysi'r Ofalaeth ynghyd â chyfeillion eraill i'r Cwrdd Diolchgarwch yn lolfa Cartref Plas-y-dderwen dan ofal ein Gweinidog.



Dameg yr Heuwr a fu'n sail i neges ein Gweinidog. Cydiodd yn y gwahanol fathau o hadau sy'n bwysig i'w hau. Mae hadau anogaeth yn allweddol mewn byd mor gythryblus, hadau gobaith i'n harbed rhag rhoi i fyny ynghanol anobaith a hadau ffydd i allugoi'r Efengyl i drin tir ein bywydau.,



Yn ystod yr oedfa buom yn gwrando ar ddarnau o'r Beibl, yn canu emynau ac yn cyd-weddïo. Roedd Mai Thomas wrth yr organ.

Diolch i Beti-Wyn am drefnu'r oedfa ac am ei neges amserol a hefyd i'r Cartref am y lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa. Bu'n fore da.

CARTREF PLAS Y DDERWEN GWASANAETH NADOLIG

gyda'n Gweinidog

Bore Gwener, 15 Rhagfyr 2017 am 11am

Croeso cynnes i bawb



CARDIAU NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL

ar werth
yn y Priordy
Yn ystod Tachwedd / Rhagfyr

NADOLIG YR OFALAETH 2017



**DYDD SUL 10 RHAGFYR 2017
Y PRIORDY**

**Prynhawn Sul am 3.30
Oedfa Nadolig yr Eglwys gyfan
*Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn***



CANA

**Prynhawn Sul am 1.30
Oedfa Nadolig dan ofal yr Ysgol Sul
*Parti i ddilyn***

HEOL AWST

**Nos Sul am 7.30
Plygain Merched y Wawr**

DYDD SUL 17 RHAGFYR 2017

CANA

**Oedfa Nadolig yr Ofalaeth am 10
*Paned i ddilyn***

BANCYFELIN

**Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned
Gorymdaith drwy'r pentref yn cychwyn am 6
ac Oedfa dan olau kannwyll yn y Capel
*Paned i ddilyn***

DYDD SUL 24 RHAGFYR 2017

Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yn y Priordy am 10 gyda'n Gweinidog

BORE NADOLIG

**Oedfa Undebol i'r teulu cyfan yn Y Priordy am 9 y bore gyda'n
Gweinidog a'r Bobl Ifainc**

DYDD SUL 31 RHAGFYR 2017

Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 10 gyda'n Gweinidog

Croeso i bawb

Gwynn Bowyer..

OWAIN LAWGOCH

Nododd yr athro R .T. Jenkins yn ei gyfrol “Ffrainc a’i phobl”, na ddylai neb grwydro Ffrainc heb iddynt yn gyntaf brofi gwledydd eraill. Cyngorodd i chwi ddod i Ffrainc - ar ôl tyfu lan!



Cefais y cyfle i grwydro’r wlad sawl gwaith dros y blynyddoedd, ond heb ymweld ag ardal Bordeaux. Dyma Ann unwaith eto’n trefnu’r daith - hedfan o Fryste i Bordeaux, llogi car yn y maes awyr, a ffwrdd â ni am wythnos mewn gite (tŷ ar rent) mewn pentref nid nepell o’r Chateau Margaux enwog. Dyma ni’n aros ger y Gironde - afon fawr y gwinllanoedd. Gyda llaw, mae potel o win gorau Margaux, yn costio tua £1,300 yr un!



Llithra’r afon trwy ddinas hen a hardd Bordeaux, ac ers i Gymru chwarae pêl-droed yn y cwpan Ewropeaidd daeth ein gwlad yn weladwy fel gwlad i filiynau o wylwyr. Dywedodd prif heddwys y ddinas nad oedd un achos o dor-cyfraith wedi digwydd ar ran cefnogwyr

Cymru, mor wahanol i hanes rhai cefnogwyr y Saeson a’r Rwsiaid. Pan welodd pobl y Ddraig Goch yn chwifio ar y modur cefais ymateb caredig a llawen. Cyn gadael Caerfyrddin digwyddais gyfarfod â’r Arglwydd Dafydd Wigley yn Heol y Brenin, ac yn y sgwrs soniodd am gofgolofn Owain Lawgoch yn Montagne sur Gironde. Cadarnhaodd hyn fy mwriad i fynd yno. Pan oeddwn yn fyfyrwr yn Aberystwyth cefais y fraint o eistedd wrth draed Gwyn Alf Williams a chael clywed hanes Cymru o’r cychwyn pell i lawr at yr ail ryfel byd. Yn yr ysgol – pytiau o hanes Cymru a gefais, ond yr oedd “Gwyn Alf” yn serennu fel darlithydd a hudodd myfyrwyr o adrannau eraill i ddod i wrando arno..

Ef a soniodd am Owain Lawgoch a’i ymgais i godi byddin yn Ffrainc i hwylio i Gymru a thaflu’r Saeson Normaniaidd allan o’r wlad. Roedd ganddo hawl i fod yn dywysog Cymru oherwydd ei berthynas gwaed â theulu Llywelyn ap Gruffydd, tywysog cyntaf Cymru. Gan fod y gofgolofn yr ochr arall i’r afon, rhaid oedd mynd ar “fferi” o bentref La Marque i Blaye ac oddi yno, diolch i’r Sat Nav, cyrraedd Montagne a mynd i’r Syndicat de Initiative sef swyddfa a siop Twristiaeth yr ardal, gan dderbyn cyfarwyddiadau a thaflenni hanes Owain Lawgoch.

Dyma ran o’r hanes yn fyr.

Chwe chanmlynedd yn ôl, ar ôl i'r Saeson goncro Cymru a lladd Llywelyn ein Llyw Olaf, aeth nifer o filwyr o Gymru i'r cyfandir fel milwyr am gyflog. Un o rhain oedd Owain Lawgoch – sef Owain ap Thomas ap Rhodri. Roedd yn ŵyr i Rhodri ap Gruffydd, brawd iau Llywelyn a laddwyd yng Nghilmeri dan amgylchiadau amheus. Penderfynodd Owain gefnogi brenin Ffrainc fel capten ar nifer o filwyr, y rhan fwyaf yn Gymry. Bu mewn llawer brwydr a llwyddodd i orfodi'r Saeson allan o lawer man yn Bordeaux. Mae tystiolaeth iddo roi cerflun o'r Fair Forwyn i Eglwys Gadeiriol Notre Dame ym Mharis yn 1369. Dyma'r tro cyntaf i'w bresenoldeb yn Ffrainc gael ei nodi yn bendant. Mae'n amlwg fod y goron Seisnig yn ofni Owain a chynlluniwyd i'w lofruddio trwy dwyll. Ymddangosodd gŵr o'r enw John Lamb a oedd yn siarad Ffrangeg yn rhugl, a llwyddodd i ymuno â byddin Ffrainc, ac yna symud i ymuno ag Owain a dod yn was personol iddo. Un diwrnod anfonodd Lamb i nôl crib i grib o'i wallt, ond daeth yn ôl gyda dagra, a lladdodd Owain yn ei babell. Dihangodd John Lamb a derbyn £20 am y weithred gan y goron Seisnig, arian sylweddol yn y cyfnod hwnnw. Bu fyw yn Lloegr tan iddo farw yn 1413. Roedd yn un o ysbïwyr i goron Lloegr "a'r hawl i ladd". Ydi James Bond yn dod i'r meddwl? Faint tybed o ysbïwyr fel hyn sy'n bodoli gan lywodraeth y goron ym Mhrydain heddiw?

Claddwyd Owain yn Eglwys Saint Leger ychydig filltiroedd o'r lle bu farw. Ger y man bu farw mae'r gof golofn ar ffurf llaw yn codi o'r ddaear yn ysgytwol. Mae parch iddo fel milwr pwysig ym myddin Ffrainc, a hefyd fel un o dywysogion Cymru'n, cael ei gofio ar y gof golofn mewn Ffraneg a Chymraeg.

Roedd yn werth ei gweld, a gadewais faner y Ddraig Goch ger y maen fel tystiolaeth fod un teulu o Gymru wedi'i ddwyn i gof, gan obeithio bod mwy eto o bobl ein gwlad yn clywed amdano. Mae deiseb ar gael yn gofyn am ddysgu mwy o hanes Cymru yn ein hysgolion. Cefnogwch.




PAPUR PRIORDY yn sgwrsio â

CATRIN SAYWELL

PP: Rwyd ti wedi mentro i fyd busnes ar dy liwt dy hunan, Catrin. Elli di esbonio i ni beth yn union yw dy waith?

CS: Wel, fe ddechreuais i fy musnes fy hunan ddwy flynedd yn ôl. Beth ydw i ond Dylunydd Tecstilïau a Chardïau Cymraeg.



PP: Fuodd yr addysg a'r hyfforddiant a gefaist yn Ysgol Gelf Winchester (sy'n rhan o Brifysgol Southampton) yn baratoad da i ti?

CS: Do'n wir. Roedd cael gweithio yng nghanol pobl greadigol yn brofiad da. A phrofiad ardderchog hefyd oedd blasu'r Wythnos Ffasiwn i Raddedigion. Roedd y cwrs ei hunan yn cynnwys llawer iawn o astudio hunangyfeiriedig ac yn magu profiad da o weithio'n annibynnol. Roedd dysgu mewn awyrgylch fel hyn yn bleserus dros ben. Ces i brofiad gwaith gwerthfawr yn y 'Liberty Art Fabric' ar ôl graddio – profiad gwych o weithio yn y diwydiant.



PP: Beth yw dy brif gynnyrch y dyddiau hyn Catrin? Efallai y gelli roi enghraifft neu ddwy i ni?

CS: Dw i'n ymwneud yn bennaf â chardïau Cymraeg, bagïau, cysgodion lamp, lliainiau sychu llestri a llyfrau nodiadau.

PP: Oes gweithdy gyda ti?

CS: Mae gen i stiwdio yn y tŷ ble dw i'n dylunio a gweithio'n ddigidol ar gyfrifiadur. Yn y flwyddyn newydd bydda i'n addysgu oedolion i greu peintiadau blodeuog yn ôl arddull fy ngwaith i mewn gweithdai peintio.

PP: Wyt ti'n teimlo bod digon o gyfleoedd i ti ehangu a datblygu yng Ngorllewin Cymru?

CS: Does dim gwell amser wedi bod nag yn awr yn fy marn i o ran cyfleoedd yng Ngorllewin Cymru. Dw i'n gweld creu busnes fy hunan fel creu cyfleoedd i fy hunan. Daeth mwy o gyfleoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n gallu cael cynulleidfda newydd Hefyd dros y we ac mae pobl dros y byd yn gallu



darganfod fy ngwaith Ces i gyfle i gael fy ngwaith yn rhan o'r arddangosfa 'In Bloom' yn Oriel Mostyn yn Llandudno ar ôl iddyn nhw fy narganfod dros y we. Mae'r we a'r cyfryngau cymdeithasol wedi agor cymaint o ddrysau i artistiaid dros y byd, ble bynnag maen nhw'n byw.

PP: Wel, mae Tymor y Nadolig yn agosáu – cyfnod y gwario mawr!. Oes unrhyw gynlluniau gennynt i arddangos dy waith dros yr wythnosau nesaf?

CS: Fe fydda i yng Ngŵyl y Synhwyrâu yn Llandeilo, rhwng 17 a 19 Tachwedd ac yn y Ffair Nadolig ym Mharc Dinefwr rhwng 24 a 26 Tachwedd.

PP: Oes modd i ni weld a phrynu dy gynnyrch mewn siopau lleol a thu hwnt?

CS: Oes, yn lleol mae fy nghardiau'n cael eu gwerthu yn Croeso Cynnes yng Nghaerfyrddin. Dw i'n gwerthu nwyddau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Siop Inc yn Aberystwyth. Mae fy ngwaith hefyd ar werth yn Oriel Mostyn yn Llandudno. Dw i yn y broses o werthu mewn llawer o ardaloedd newydd yn ystod y misoedd nesaf hyn. Yn ychwanegol, mae gen i siop Etsy ar y we ble dw i'n gwerthu.



PP: Rwyf ti'n Gymraes rugl. A yw'r Gymraeg yn fanteisiol yn dy waith di?

CS: Dwi'n credu'i bod yn fantais i fod yn Gymraes sy'n dylunio Cardiau Cymraeg. Cwmnïoedd y tu allan i Gymru sy'n dylunio llawer o gardiau Cymraeg. Dw i'n credu bod pobl Gymraeg yn hoffi prynu cerdyn gan berson lleol sy'n siarad yr iaith.

PP: Ydy marchnata'n dipyn o her i ti? Sut wyt ti'n mynd o gwmpas hyn?

CS: Ydy, mae'n bwysig dros ben. Dwi'n marchnata trwy Weplyfr, Instagram a Thrydar ac mae pobl y tu allan i Gymru'n prynu fy nghardiau Cymraeg ar ôl iddyn nhw ddarganfod fy ngwaith trwy Hashtags. Mae'n ddiddorol iawn! . Mae pobl yn hoff iawn o weld y broses o greu braslun ar gyfer fy nghynnyrch terfynol.. Dw i felly'n rhoi cipolwg o'r hyn sy'n digwydd 'y tu ôl i'r llenni' ar fy nhudalen Gweplyfr

P: Wel Catrin, yn ôl at y gwreiddiau am ychydig. Mae dy fam yn aelod yn y Priordy ac rwyf tithau'n un o blant ein Hysgol Sul. Oes rhai atgofion gennynt am y dyddiau cynnar hynny?

CS: Dwi'n cofio canu deuawd gyda fy mrawd Gareth yn y pulpud a gwisgo lan fel angel yn 'Stori'r Geni', a chwarae mewn twrnamaint pêl-droed. Mae llawer o agofion da gyda fi o'r Ysgol Sul gyda Mrs Eirlys Rees.

PP: Mae brawd talentog gyda ti Catrin - yntau hefyd yn un o gyn-ddisgyblion ein Hysgol Sul. Bellach, mae Gareth yn gogydd ac yn bwydo'r 'mawrion' yn Llundain, mae'n debyg! Elli di ddweud mwy wrthym? A gobeithio y byddi'n enwi rhai o'r enwogion!!

CS: Mae Gareth yn gweithio fel 'Sous Chef' mewn bwyty Eidaleg o'r enw Bocca Di Lupo. Mae'n coginio bwyd rhanbarthol o'r Eidal mewn cegin cynllun agored ble mae'r cwsmeriaid yn gallu gweld y coginio fel rhan o'r profiad. Mae e wedi gweld Bill Nighy, Sienna Miller a Kevin Spacey yn y bwyty - i enwi rhai o'r enwogion!

PP: Ac i orffen, Catrin, yn ôl atat ti. Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, sut wyt ti'n gweld pethau'n mynd o ran dy waith? Efallai bod rhyw uchelgais gennyt ti o hyd?

CS: Dwi'n edrych mewn at ehangu fy nghasgliad o



gardiau ac i werthu mewn mwy o siopau. Dw i yn y broses o ehangu fy nghyfleoedd i werthu gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gymru. Ar hyn o bryd dw i'n hapus yn dysgu wrth ddatblygu fy musnes bach ac yn cymryd un cam ar y tro. Dwi'n gyffrous am y posibiladau a'r cyfleoedd a ddaw i mi, gobeithio, yn y dyfodol ac yn mwynhau'r daith.

Diolch yn fawr iawn i ti am ateb y cwestiynau a phob llwyddiant i ti yn dy waith – dros y Nadolig ac i'r dyfodol.

GWASANAETH NADOLIG CYLCH MEITHRIN MYRDDIN

yn

Y PRIORDY

Prynhawn Sul, 17 Rhagfyr 2017 am 2 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb



Beth am droi at cyfundeb.com?

Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin



Alison Parsons ...

BORE COFFI McMILLAN
Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Cynhaliwyd Bore Coffi Mcmillan ar fore Gwener 29 Medi `yn festri Priordy. Dyma'r chweched flwyddyn i'r ofalaeth gynnal y bore coffi ac roedd unwaith eto'n fore llawn hwy!, cyfeilgarwch a sgwrs.

Codwyd cyfanswm o £915 ar y bore ond mae arian yn dal i ddod i mewn. Diolch i bawb a gefnogodd ym mhob ffordd.

Gwnewch yn siŵr pan gewch ddyddiadur newydd dros y Nadolig eich bod yn nodi Dydd Gwener ola mis Medi ynddo ar gyfer y bore coffi Macmillan nesa!



CINIO SUL YR OFALAETH



**Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio
yn cyflwyno...**

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



SUL DIOLCHGARWCH

Gofynnwyd i'r plant/ieuenctid ddod â **DAU ffrwyth, llenwi bocs 'Pringles' efo darnau 5, 10 neu 20 ceiniog** a thusw o flodau. Rhannwyd y blodau a'r ffrwythau i aelodau hŷn Salem a chyfrannwyd yr arian at **APÊL DAEARGRYN MECSICO**. Casglwyd £170.



CLWB DARLLEN

Y llyfr a ddarllenir ar hyn o bryd yw 'Truly Guilty' gan Liane Moriarty

AGOR Y LLYFR

Ddechrau Medi, cychwynnwyd ar fenter newydd drwy ymweld ag Ysgol y Gelli. Y tymor nesaf, byddwn yn ymweld ag ysgolion cynradd eraill Caernarfon. Mae hyn yn gyfle gwych i gyflwyno straeon y Beibl i'n plant. Cyngor Eglwysi'r Dref sy'n gyfrifol am drefnu.



Y GYMDEITHAS

Mae'n arferiad ers rhai blynnyddoedd bellach inni gychwyn tymor y gymdeithas gydag ymweliad a thamaid o fwyd. Eleni, anelu am Ddyffryn Nantlle wnaethom ni a Gwinllan Pant Du. Y bwriad oedd cael mynd o amgylch y winllan a'r perllannau cyn cael pryd yn y caffi. Ond roedd gan y tywydd gynlluniau gwahanol i ni! Nid oedd yn bosib mynd o amgylch y winllan—mae'n amheus a fyddem wedi gweld dim byd ac ystyried y glaw a'r niwl. Yn hytrach, cawsom eistedd yn y caffi cyfforddus yn gwrando ar y perchennog yn adrodd ychydig o hanes Fferm Pant Du ac yna hanes creu Gwinllan Pant Du. Mae'n anhygoel meddwl fod modd cynnal gwinllan lwyddiannus yn Nyffryn Nantlle - ond dyna sydd wedi digwydd.



NADOLIG: Y STORI

*I'w pherfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg
i bobl Caerfyrddin yng Nghapel y
Bedyddwyr Saesneg*



Profiad Nadolig Unigryw

Cerddoriaeth .. Asynnod Byw Fidio ... Actorion Lleol

11 – 16 Rhagfyr 2017

	11.00	12.00	2.00	3.00	4.00	5.00	5.30
Llun 11.12.17	Eng	Cym	Cym	Eng			
Mercher 13.12.17	Cym	Eng	Eng	Cym		Cym	Eng
Gwener 15.12.17	Eng	Cym	Cym	Eng			
Sadwrn 16.12.17	Cym	Eng	Eng	Cym	Eng		



DYDD MAWRTH (12.12. 17)

a

DYDD IAU (14.12.17)

Blaenoriaeth i Ysgolion

MYNEDIAD AM DDIM

MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN

PLYGAIN

NOS SUL - 10 RHAGFYR 2017 - 7.30

HEOL AWST, CAERFYRDDIN

RHAGLEN: £3



CASGLIAD Y GENHADAETH

Codwyd £135 at y Genhadaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.

CASGLIAD OLAF Y FLWYDDYN

Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU

AM ELENI YW

10 Rhagfyr 2017


DATHLIADAU'R FFYDD 2017

Cyhoeddiad gan Gapel y Nant, Clydach ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Hanesion byr am Martin Luther, William Salesbury, Pantycelyn a'r Tyst

Copïau yn y cyntedd



BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI
PLASTIG YN Y CYNTEDD**

PLANT MEWN ANGEN

FFAIR NADOLIG

Dydd Sadwrn 18 Tachwedd 2017 – 10 tan 12

Capel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst

Mynediad (yn cynnwys coffi): £1.50



DARLUN ARBENNIG!

I ddathlu Dydd
Rhyngwladol
Cydnabod
Gweinidogion ar 8
Hydref 2017, crëodd
plant yr Ysgol Sul
ddarlun arbennig o
Beti-Wyn! Roedd yn
cynnwys yr holl
bethau maen nhw'n
ddiolchgar eu bod yn
eu derbyn gan ein
Gweinidog.

***Diolch i Llinos Jones
am ei help gyda'r
prosiect***





DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



TACHWEDD		RHAGFYR	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Philip Jones	Gwynfor Davies	Gareth Gravell	Gareth Gravell



BLODAU



Tachwedd	5		Rhagfyr	3	
	12	Mirian Wyrwoll		10	
	19			17	
	26	Mair Lewis		24	
				31	Beti Wyn James



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Tachwedd	5	Bore	Mari Jenkins a Thelma Evans
Rhagfyr	3	Hwyr	Enid Wyn Jones a Jan Davies



YMWELWYR



Tachwedd / Rhagfyr	Ein Gweinidog (Anrhegion Nadolig)
--------------------	-----------------------------------



DARLLENWYR



Tachwedd	5	Chris Lloyd	Rhagfyr	3	Heledd Tomos
	12	Llinos Jones		10	
	19	Nansi Hayes		17	Alun Charles
	26	June Thomas		26	Philip Jones
				31	



CYHOEDDWYR



Tachwedd	Philip Jones	Rhagfyr	Catrin Jones
Y DDIWEDDAR MRS ELFIRA JONES			
Bu farw Mrs Jones, Fferm Y Pant, Llangynnwr yn dawel yn Ysbyty			

Glangwili ar 23 Medi 2017.

Bu'n aelod yn Y Priordy er pan oedd yn ferch ifanc iawn a bu'n ffyddlon hyd i'w hiechyd ddirywio.

Cofiwn am Mrs Jones fel gwraig annwyl a chyfeillgar, yn un a fyddai bob amser yn gweld y gorau ym mhawb, ac a weithiodd yn galed iawn. Roedd i'w chymeriad wedd ysbrydol amlwg a byddai bob amser yn falch o'r cyfle o rannu'i hatgofion am ei dyddiau yn Y Priordy. Medrai enwi'r gweinidogion a fu'n fyfyrwyr yng Ngholeg Y Presby ar y Parêd ac a fyddai'n mynychu'r Priordy ar nos Sul. Cofiai hyd y diwedd adnodau a phenillion a ddysgodd yn yr Ysgol Sul pan oedd yn blentyn.

Ymfalchiai'n dawel fach yn llwyddiant ei phlant a'i hwyrion, a chafodd ofal arbennig gartref ar yr aelwyd gan ei phriod, Mr Vernon Jones. Priodwyd y ddau yn Y Priordy dros drigain mlynedd yn ôl.

Ac i'r Priordy, ar bnawn Llun, Hydref 2 y daeth ei theulu a'r ffrindiau ynghyd i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, gyda chymorth aelodau'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Vernon Jones, Wynne, Linet a'u teuluoedd.

Coffa da am wraig annwyl iawn.

Ein Gweinidog

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Thelma Evans, Manhattan, Ucheldir, Pensarn, ar golli'i brawd yng nghyfraith, Gwyn Evans, Brechfa ar 21 Medi 2017. Meddylwn hefyd am Anita, ei briod, a'r merched Sheila a Nesta a'u teuluoedd yn ei colled a'u hiraeth.



PLESER arbennig yw croesawu baban newydd! Ar 2 Tachwedd ganwyd Deio Cai i Heledd a Gethin Tomos a brawd bach i Myfi Blodwen, Anell, Felin-wen. Pob bendith ar y teulu.



Cafodd Gareth Gravell hwyl arni yng Nghystadleuaeth Golff Llyfrau Llafar Cymru yng Nghlwb Derllys Bancyfelin yn ddiweddar. Derbyniodd wobwr arbennig am ddod yn agosaf at y pin a hynny ar yr ail dwll. Llongyfarchiadau mawr iddo! Rhaid llongyfarch Gareth hefyd fel aelod o'r grŵp Jac-y-do ar gyrraedd carreg filltir nodedig yn ddiweddar, sef pen-blwydd y grŵp yn 30 oed. Cynhaliwyd noson arbennig yn Neuadd Gymunedol Llandybïe i ddathlu'r achlysur pan ddaeth cyn aelodau a rhai presennol at ei gilydd.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod, sef Tina Charles, Wynne Jenkins, Eleri Thomas a Mari Jones. Meddyliwn hefyd am bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Llwyddodd Tîm Siarad Cyhoeddus Ysgol Bro Myrddin i gyrraedd rownd derfynol genedlaethol y Rotari. Bydd honno'n cael ei chynnal yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd, y mis hwn. Un o aelodau'r tîm yw Heledd Jones. Y testun yw *'Dros yr ugain mlynedd diwethaf, a yw datganoli wedi bod yn llwyddiant i Gymru?'* Pob lwc i'r tîm yn y brifddinas!

Clywyd Lowri Edwards, athrawes yn Ysgol Gyfun Gwent Isgoed, sef Ysgol Uwchradd Gymraeg newydd Casnewydd, ar y rhaglen *Dysgu'r Miliwn* ar **BBC Radio Cymru** yn trafod nod Llywodraeth Cymru o geisio sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bu Rhian Mair Evans ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn trafod Wythnos Genedlaethol Braille (9-15 Hydref) a chafodd gyfle hefyd i sôn am Lyfrau Llafar Cymru. A bu **Heno (S4C)** yn nodi Wythnos Pobi yng nghwmni Alison Parsons (a Hawys Barrett) yn fyw o'r Caffi Pethau Da yng Nghaerfyrddin. Yn cymryd rhan yn y drafodaeth ar Golli Ffydd ar **Y Byd ar Bedwar** ar **S4C** roedd, ein Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn a gwelwyd hefyd sawl aelod o'r Priorddy yn y clip ffilm o'r capel. Un arall a fu'n cymryd rhan oedd Y Parchedig W J Edwards, ein cyn Weinidog a gweinidog olaf Capel y



Graig Machynlleth. Bu Meleri Llwyd O’Leary ar **Heno** yn sôn am ddathliadau Ysgol Banffosfelen yn 140 oed. A chymerodd Heledd



Tomos ran mewn eitem ar **Prynhawn Da** ynghylch codi ymwybyddiaeth o golli babanod a bu’n dwyn i gof ei phrofiad hithau a Gethin o golli Cai. Un arall a fu ar **Prynhawn Da** a **Heno** oedd Sulwyn Thomas yn sôn am

ymgyrch ddiweddaraf Llyfrau Llafar Cymru i godi ymwybyddiaeth disgyblion ysgol o’r cynllun yn ogystal â chodi rhagor o gyllid. Yn y clipiau teledu gwelwyd yn ogystal Eirlys Jones yn recordio llyfr ar gyfer y Llyfrau Llafar. A bu Sulwyn Thomas a Wyn Tegryn Evans ar **Heno** yn ymateb i *Siân Cothi – Cyngerdd Dathlu 10* a gynhaliwyd ym Mhonrhydfendigaid.



AC I GLOI, dymuniadau da i Rhian Pritchard Franklin, Heol Penlanffos, sy’n dathlu pen-blwydd arbennig ar 20 Tachwedd!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Rhagfyr i’n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Nos Lun, 4 Rhagfyr 2017 – Y Ffestri – 7

LANSIO BONDO, CYFROL NEWYDD Y DR MENNA ELFYN

Bydd darlleniadau

Cymdeithas y Tair Eglwys (Y Tabernacl, Talog a Foelcwan yn ymuno â ni)



CANIADAETH Y CYSEGR CYMANFA PANTYCELYN – Y PRIORDY

Bydd rhaglen gyntaf y Gymanfa uchod yn cael ei darlledu ar
Radio Cymru ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul 11 a 12 Tachwedd 2017

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Angharad Lewis, Llinos Jones, Llinos Williams, Catrin Jones, Ann Bowyer, Eira Jenkins ac Alun Lenny am y lluniau’r mis hwn



BLWYDDIADUR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAG 2018

yn cynnwys

Dyddiadur, Darlleniadur, Suliadur a Llawlyfr

Pris - £7.50

I archebu cysylltwch a Sulwyn Thomas, os gwelwch yn dda



Y SULIADUR



Tachwedd	5	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog. Y Tabernacl yn ymuno â ni	Cymun
	12	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Cydaddoli yn y Tabernacl gyda'r Parchedig Peter Cutts	
	19	<i>Bore P'nawn</i>	Y Parchedig Ddr Geraint Tudur Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 2 gyda'r Parchedig Ddr Geraint Tudur	
	26	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	

Rhagfyr	3	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog <i>Casgliad at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg Cynhelir y ddwy oedfa yn y Ffestri</i>	Cymun
	10	<i>Bore Pnawn Hwyr</i>	Ymarfer l'r Plant a'r Bobl Ifainc am 10 y bore ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Gwasanaeth Nadolig y Priordy am 3.30. Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn, <i>Casgliad at yr Ysgol Sul Casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn</i> Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Heol Awst am 7.30	
	17	<i>Bore Hwyr</i>	Oedfa Nadolig yr Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6	
	24	<i>Bore</i>	Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog	
	31	<i>Bore</i>	Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 10 gyda'n Gweinidog	

BORE NADOLIG - OEDFA DEULU YN Y PRIORDY AM 9 Y BORE GYDA'N GWEINIDOG A'R BOBL IFAINC

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul Y – Ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig GN – Gwasanaeth Nadolig								
Tachwedd				Rhagfyr				
5	12	19	26	3	10	17	24	31
✓	✓ PIP	Y	Y	Y	Y – 10 GN -3.30	-	-	-

Nos Lun – 6 Tachwedd 2017 am 7 yn y Ffestri - Y Gymdeithas gyda Cefin Campbell